Embargo llym tan 6 am
8 Rhagfyr 2010

PROSIECT GWYRDD

DATGANIAD I'R WASG

TROI PROBLEM YN ADNODD

PROSIECT GWYRDD YN CYHOEDDI RHESTR FER AR GYFER CONTRACT GWASTRAFF GWEDDILLIOL

Mae'r pedwar datrysiad â'r sgorau uchaf wedi'u dewis a'u gwahodd i fynd ymlaen i gam nesaf y broses gaffael, ar gyfer y Contract Prosiect Gwyrdd.

Dywedodd y Cyngh Mark Stephens, Cadeirydd y Cyd Bwyllgor, sy'n llywodraethu'r prosiect: "Roedd proses werthuso'r 'Datrysiadau Amlinellol' yn un cynhwysfawr, yn edrych yn benodol ar asesiad technegol, cyflenwi gwasanaeth a'r gallu i gyflenwi a chyfanrwydd datrysiadau arfaethedig gan gynnwys sicrhau y byddai pob datrysiad yn gallu cwrdd â safonau Asiantaeth yr Amgylchedd"

"Mae pob partner yn rhannu dyheadau Strategaeth Wastraff Tuag at Ddyfodol Diwastraff a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru felly rydym wedi sicrhau bod y cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn gyson â'r egwyddorion hynny."

Mae'r cyfranogwyr canlynol wedi'u gwahodd i gyflwyno 'Datrysiadau Manwl' (yn nhrefn yr wyddor:)

Covanta Energy Ltd: Mae Covata Energy Ltd yn cynnig cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni masnachol ym Mrig y Cwm, Merthyr Tudful.

Veolia ES Aurora Ltd: Mae Veolia ES Aurora Ltd yn cynnig Cyfleuster Adfer Ynni wedi ei leoli ar Gomin Bowlease, i'r De o'r Gwaith Dur Corus presennol, yn Llanwern Casnewydd.

Viridor Waste Management Ltd: Mae Viridor Waste Management Ltd yn cynnig cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni masnachol gyda chyfleuster Gwres a Phŵer Cyfunedig wedi ei leoli ym Mharc Trident, Caerdydd.

Waste Recycling Group Ltd: Mae Waste Recycling Group Ltd yn cynnig cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni wedi ei leoli ar safle Solutia UK ar Traston Road, Casnewydd.

Bydd y prosiect yn darparu contract i ddarparu cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol ar gyfer y pump awdurdod partner mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl ailgylchu a chompostio i'r eithaf ym mhob ardal. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targed ailgylchu a chompostio 70%, ac mae awdurdodau partner wedi datblygu strategaethau gwastraff i weithio tuag at darged cyfun o 65% gan adfer o leiaf 5% pellach trwy broses trin gwastraff gweddilliol.

(mwy)

Dywedodd y Cyngh Mark Stephens, Cadeirydd y Cyd Bwyllgor, sy'n llywodraethu'r prosiect:

"Y flaenoriaeth ar gyfer pob awdurdod yw ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl. Mae ein targedau yn glir ac mae cynlluniau ailgylchu a chompostio awdurdod lleol wedi'u datblygu a byddant yn parhau i gael eu datblygu, ond mae angen gosod seilwaith ar gyfer gwastraff gweddilliol i leihau dibynnu ar dirlenwi a gweithio tuag at y targedau dargyfeirio o dirlenwi a osodwyd. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad a fydd yn ein caniatáu i ddatblygu'r seilwaith a chapasiti i gwrdd â'r targedau heriol hyn."

"Bydd pob awdurdod yng Nghymru hefyd yn caffael datrysiad ar gyfer y gwastraff 'bag du' hwn, gan nad yw tirlenwi mwyach yn opsiwn yn amgylcheddol nac yn economaidd. Mae'r cyfranogwyr a ddewiswyd nawr wedi'u gwahodd i gyflwyno datrysiadau manwl"

Yn dilyn y cam Cyn Cymhwyster, gwahoddwyd wyth cyfranogwr i gyflwyno 'Datrysiadau Amlinellol', cafwyd pump datrysiad o'r farchnadfa ac mae pedwar cyfranogwr wedi'u gwahodd i gyflwyno 'Datrysiadau Manwl'.

Ar ôl cwblhau pob cam caffael, bydd y cynllun marcio ar gael ar y wefan i sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gallu gweld sut mae'r cyfranogwyr wedi'u hasesu wrth gadw at Ddeddfwriaeth Caffael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cynigion y Cyfranogwyr sydd wedi'u cyflwyno yn seiliedig ar y mathau o wastraff a ragfynegwyd a fydd yn cyfrannu at y 'gwastraff gweddilliol', ar ôl adfer mwyafrif y gwastraff o ochr y ffordd. Darperir cyfleusterau i ddargyfeirio eitemau sych i'w hailgylchu, gwastraff o'r ardd a gwastraff bwyd trwy gasgliadau ochr y ffordd, yn ogystal â darparu cyfleusterau ailgylchu ar gyfer eitemau mwy mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

Nodiadau i Olygyddion.

Caffael, cyllid a llifoedd gwastraff

- Cymeradwywyd y Gwahoddiad i Gyflwyno Datrysiadau Manwl gan y Cydbwyllgor ar 6 Rhagfyr, yn rhoi cymeradwyaeth i hysbysu'r Cyfranogwyr ar 7 Rhagfyr gyda chyhoeddiad cyhoeddus ar 8 Rhagfyr
- Nawr bod y Rhestr Fer wedi'i chyhoeddi, bydd digwyddiadau rhanddeiliaid yn cael eu trefnu yn Ionawr/Chwefror 2011. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu ar www.prosiectgwyrdd.co.uk, yn y cyfryngau lleol ac mewn cymunedau lle cynigir y safleoedd.
- Mae'r llinell amser ar gyfer y caffael fel a ganlyn (Ian Evans i ychwanegu manylion i ryddhau i'r cyfryngau.)
- Rhagwelir y bydd proses caffael y prosiect hwn yn cymryd Dwy (2) flynedd, mae crynodeb o'r amserlen ddangosol isod:

  OJEU wedi'i hysbysebu i'r farchnad – Tachwedd 2009
  Holiadur Cyn Cymhwyster –gwanwyn 2010
  Dialog gyda chynigwyr – gwanwyn 2010 i haf 2011
  Cynigiwr dewisedig – hydref 2011
  Contract wedi'i gwblhau a chynllunio – 2012

(mwy)

- Mae cyllid wedi'i sicrhau gan LlCC trwy'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) a bydd yn cyfrannu 25% o ffi gât y dyfodol.
- Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer Prosiect Gwyrdd hyd at uchafswm o £9.124m mewn blwyddyn weithredol lawn yn dibynnu ar gymeradwyo'r achos busnes terfynol ar gyfer y prosiect. Mae'r lefel grant a roddir ar gyfer Prosiect Gwyrdd yn seiliedig ar ragamcaniad o gost dybiedig darparu'r cyfleuster a bydd yn amrywio yn unol â chostau gwirioneddol pan fydd yr achos Busnes Terfynol yn cael ei gymeradwyo. Rhaid i'r cyfrifiad gwirioneddol barhau'n fasnachol gyfrinachol gan y bydd y prosiect yn ddibynnol ar broses dendro fasnachol. Mae cyllid wedi'i sicrhau gan LlCC trwy'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) a bydd yn cyfrannu 25% o ffi gât y dyfodol.

- Mae Deilliannau Gwastraff sy'n cyfrannu at 'wastraff gweddilliol' wedi'u dadansoddi yn 2003, Mehefin 2009 a Thachwedd 2009 gan AEA Technology. Defnyddiwyd yr ymchwil yn 2003 i gasglu data ar gyfer ABA Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg, tra bo data cyfansoddiad penodol ar gael ar gyfer Caerffili a Chasnewydd. Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad AEA technology i ymgymryd ag ymchwil pellach ym Mehefin 2009 a Thachwedd 2009. Bydd yr ymchwil newydd hwn yn cael ei werthuso fel sail i'r broses caffael a maint a chyfansoddiad 'gwastraff gweddilliol'. Mae brîff 'Deilliannau Gwastraff' ar gael yn www.prosiectgwyrdd.co.uk

Ailgylchu a chompostio

- Mae'r targedau gwastraff canlynol wedi'u hamlinellu gan Llywodraeth y Cynulliad.

  2009/10 - 40% (15% yn gompostio, ond nid bwyd yn unig)
  2012/13 - 52% (12% yn darged bwyd yn unig)
  2015/16 - 58% (14% yn darged bwyd yn unig)
  2019/20 - 64% (16% yn darged bwyd yn unig)
  2019/20 – uchafswm o 10% i'w waredu mewn safleoedd tirlenwi
  2024/25 - 65/70% (18% yn darged bwyd yn unig)
  2024/25 – uchafswm o 5 % i'w waredu mewn safleoedd tirlenwi
- Mae'r cyfraddau ailgylchu a chompostio ar gyfer y 5 awdurdod partner yn Chwarter 2 2010 fel a ganlyn:- Caerdydd 41.6, Caerffili 54.53, Sir Fynwy 50.02, Casnewydd 44.8 a Bro Morgannwg 40.88.

Ymgynghoriad rhanddeiliaid

- Cynhaliwyd diwrnodau ac arolygon rhanddeiliaid rhwng Medi a Rhagfyr 2009 i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y Meini Prawf Gwerthuso. Trafodwyd ac aseswyd materion penodol yn ceisio safbwyntiau ar flaenoriaethau agweddau technegol, cymdeithasol, ariannol a chyfreithiol y Meini Prawf Gwerthuso.

Rheoleiddio ac ymchwilio i effeithiau iechyd canfyddedig

- Mae'r Asiantaeth Amgylcheddol yn rheoleiddio'r holl ynni o gyfleusterau gwastraff, a gellir lawrlwytho gwybodaeth ar y broses rheoleiddio hon o'u gwefan, www.environment-agency.co.uk .
- Mae'n rhaid i bob proses sy'n cynnwys llosgi gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Llosgi Gwastraff. Mae'r gyfraith hon yn gosod rheoliadau llym ar ollyngiadau o bob math o ynni o dechnolegau gwastraff, gan gynnwys Pyrolysis, Nwyeiddio ac Ynni o Wastraff gyda Gwres a Phŵer Cyfun (Llosgi). Mae gofyn i'r technolegau hyn fonitro gollyngiadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, o leiaf, â'r cyfyngiadau yng Nghyfarwyddyd Llosgi Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd (2000/76/EC) sy'n gosod rheoliadau gollyngiadau llym ar gyfer llygryddion. Mae'r Cyfarwyddyd wedi'i roi ar waith yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007. O Ebrill 2008 gwelwyd y rhain yn cymryd lle'r Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000'.

(mwy)

Gellir gweld y canllaw ar y ddeddfwriaeth hon trwy'r ddolen ganlynol: http://www.defra.gov.uk/environment/policy/permits/documents/wid-guidance.pdf.

- Cyhoeddodd Asiantaeth Diogelu Iechyd adroddiad ym Medi 2009, yn ymdrin ag effeithiau canfyddedig llosgi gwastraff ar iechyd. Gellir gweld yr adroddiad trwy'r ddolen ganlynol: http://www.hpa.org.uk/web/HPAwebFile/HPAweb_C/1251473372218.
- Mae'r effeithiau cymharol ar iechyd gyda gwahanol ddulliau o waredu gwastraff wedi'u hystyried yn fanwl mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra 2004). Gellir gweld crynodeb o'r ymchwil helaeth hwn trwy'r ddolen ganlynol: http://www.defra.gov.uk/environment/waste/statistics/documents/health-summary.pdf.
- Yn yr ymchwil hwn, 'The Review of the Environmental and Health Effects of Waste Management Municipal Solid Waste and Similar Wastes', ystyriwyd 23 astudiaeth ansawdd uchel
  o'r patrymau afiechyd o amgylch peiriannau EFW a phedwar papur adolygu yn edrych ar effeithiau peiriannau EFW ar iechyd. Daeth i'r casgliad nad oes cyswllt argyhoeddiadol rhwng peiriannau EFW ac effeithiau negyddol ar iechyd y cyhoedd' (http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/5_wip_health_2147990.pdf.)

(Diwedd)

Paratowyd gan Prosiect Gwyrdd
E-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk.
Rhif Ffôn: 02920 717566 neu 07976 519413